**Statws** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 94

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Ceredigion (Cymunedau) 2026

*Gwnaed - - - - 17 Mawrth 2026*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru(**1**) ("y Comisiwn"), o dan adran 36(5)(a) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013(**2**) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Hydref 2024 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion adolygiad o'r trefniadau cymunedol o fewn Sir Ceredigion.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y materion y cyfeirir atynt ac a nodir yn adran 37(2)(b) ac (c) o Ddeddf 2013, wedi penderfynu rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn gydag addasiad. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud darpariaeth atodol fel y'i hystyrir yn angenrheidiol neu'n hwylus.

O dan adran 37(3A) a (3B) o Ddeddf 2013(**3**), mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi datganiad yn nodi eu penderfyniad mewn cysylltiad â phob argymhelliad o dan adran 37(6) o Ddeddf 2013(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 37(1) a 40(1) a (2)(a) a (b) o Ddeddf 2013.

O dan adran 37(2A) o Ddeddf 2013(**5**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn fwy na 6 mis cyn diwrnod etholiad cyngor cyffredin o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**6**).

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Gwnaeth Deddf 2013 ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2(2)). Gwnaeth Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (gweler adran 12).

(**2**) 2013 dccc 4. Gwnaeth adran 11 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ailenwi enw byr Deddf 2013 yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

(**3**) Rhoddwyd adran 37(3A) a (3B) yn lle adran 37(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan adran 43(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5).

(**4**) Mewnosodwyd adran 37(6) gan adran 49(2)(b) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**5**) Mewnosodwyd adran 37(2A) gan adran 47(3) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**6**) Amnewidiwyd adran 26 gan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 26 gan O.S. 2019/1269 (Cy. 220) i ddarparu mai'r flwyddyn y mae rhaid i etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol gael eu cynnal yw 2022 yn hytrach na 2021. Diwygiwyd adran 26(1) ymhellach gan adran 14(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) i ddarparu bod rhaid i etholiadau gael eu cynnal bob pumed flwyddyn ar ôl 2022.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Ceredigion (Cymunedau) 2026.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau 1976(**7**), daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mai 2026.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym am 23:59 o'r gloch ar y diwrnod cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2027.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**8**);

ystyr "newydd" ("*new*") yw cymuned, ward gymunedol neu gyngor cymuned a sefydlir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "presennol" ("*existing*") yw cymuned, ward gymunedol neu gyngor cymuned fel y mae'n bodoli yn union cyn yr amser a'r diwrnod a nodir yn erthygl 1(3);

ystyr "Rheoliadau 1976" ("*the 1976 Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976;

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir cynghorwyr drosti i Gyngor Sir Ceredigion;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 81 o fapiau a farciwyd "Map ar gyfer Gorchymyn Sir Ceredigion (Cymunedau) 2026" a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau 1976, a labelwyd "1" i "81", ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

(2) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf 1972 neu orchymyn a wnaed o dan adrannau 37(1), 38(1) neu 39(1) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

### Aberaeron — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**3.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Henfynyw a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Aberaeron;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberaeron ac Aber-arth.

**4.** Mae'r rhan o ward gymunedol Llanddewi Aber-arth o gymuned Dyffryn Arth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 2—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Aberaeron;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberaeron ac Aber-arth.

(**7**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol, nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn). Mae adran 74(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).

(**8**) 1972 p. 70.

## Aberaeron — trefniadau etholiadol cymunedol

**5.** Yng nghymuned Aberaeron, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

## Aberystwyth — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol, a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**6.** Mae'r rhan o ward gymunedol y Gogledd o gymuned Aberystwyth a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 3—

(a) wedi ei throsglwyddo i'r ward gymunedol Ganol o gymuned Aberystwyth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberystwyth Morfa a Glais.

**7.** Mae'r rhan o'r ward gymunedol Ganol o gymuned Aberystwyth a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 3—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Bronglais o gymuned Aberystwyth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberystwyth Morfa a Glais.

**8.** Mae'r rhan o ward gymunedol Penparcau o gymuned Aberystwyth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 4—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Rheidol o gymuned Aberystwyth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberystwyth Rheidol.

**9.** Mae'r rhan o ward gymunedol Sulien o gymuned Llanbadarn Fawr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 5—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Aberystwyth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Bronglais;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberystwyth Morfa a Glais.

**10.** Mae'r rhan o ward gymunedol Sulien o gymuned Llanbadarn Fawr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 6—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Aberystwyth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Bronglais;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberystwyth Morfa a Glais.

**11.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Llanbadarn y Creuddyn o gymuned bresennol Llanfarian a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 7—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Aberystwyth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Penparcau;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberystwyth Penparcau.

**12.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Llanbadarn y Creuddyn o gymuned bresennol Llanfarian a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 8—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Aberystwyth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Penparcau;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberystwyth Penparcau.

**13.** Mae'r rhan o ward gymunedol y Gogledd o gymuned Aberystwyth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 9—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Faenor;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Waunfawr;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Faenor.

### Aberystwyth — newid enwau wardiau cymunedol

**14.** Enw'r ward gymunedol Ganol o gymuned Aberystwyth fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Canol Aberystwyth yn Gymraeg ac erys yr enw Canol/Central yn Saesneg.

**15.** Enw ward gymunedol y Gogledd o gymuned Aberystwyth fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Gogledd Aberystwyth yn Gymraeg ac erys yr enw Gogledd/North yn Saesneg.

### Aberystwyth — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**16.** Yng nghymuned Aberystwyth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol Bronglais yw 3;

(b) ward gymunedol Canol Aberystwyth yw 3;

(c) ward gymunedol Gogledd Aberystwyth yw 3;

(d) ward gymunedol Penparcau yw 5;

(e) ward gymunedol Rheidol yw 4.

### Aberystwyth Morfa a Glais — trefniadau ward etholiadol

**17.** Yn ward etholiadol Aberystwyth Morfa a Glais, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 3.

### Aberteifi — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol, a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**18.** Mae'r rhan o ward gymunedol Mwldan o gymuned Aberteifi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 10—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Teifi o gymuned Aberteifi;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Teifi.

**19.** Mae'r rhan o ward gymunedol Mwldan o gymuned Aberteifi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 11—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Rhyd-y-fuwch o gymuned Aberteifi;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Teifi.

**20.** Mae'r rhan o ward gymunedol Mwldan o gymuned Aberteifi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 12—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Y Ferwig;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aber-porth a'r Ferwig.

**21.** Mae'r rhan o ward gymunedol Mwldan o gymuned Aberteifi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 13—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Y Ferwig;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aber-porth a'r Ferwig.

### Aberteifi — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**22.** Yng nghymuned Aberteifi, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol Mwldan yw 4;

(b) ward gymunedol Rhyd-y-fuwch yw 3;

(c) ward gymunedol Teifi yw 3.

### Rhyd-y-Fuwch — newid enw ward gymunedol

**23.** Enw ward gymunedol Rhyd-y-Fuwch o gymuned Aberteifi fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Rhyd-y-fuwch yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Llanbedr Pont Steffan — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**24.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Silian o gymuned bresennol Llangybi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 14—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanbedr Pont Steffan;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbedr Pont Steffan.

### Llanbedr Pont Steffan — trefniadau etholiadol cymunedol

**25.** Yng nghymuned Llanbedr Pont Steffan, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 10.

### Llandysul, a Llandyfrïog — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol, a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**26.** Mae'r rhan o ward gymunedol Trefol o gymuned Llandysul a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 15—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Tre-groes o gymuned Llandysul;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur.

**27.** Mae'r rhan o ward gymunedol Orllwyn Teifi o gymuned Llandyfrïog a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 15—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llandysul;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Tre-groes;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur.

### Llandysul — newid enwau wardiau cymunedol

**28.** Enw ward gymunedol Pontsiân yng nghymuned Llandysul fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Pontsiân yn Gymraeg ac erys yr enw Pontshaen yn Saesneg.

**29.** Enw ward gymunedol Tre-groes yng nghymuned Llandysul fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Tre-groes yn Gymraeg ac erys yr enw Tregroes yn Saesneg.

### Llandysul — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**30.** Yng nghymuned Llandysul, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol Capel Dewi yw 2;

(b) ward gymunedol Pontsiân yw 2;

(c) ward gymunedol Trefol yw 5;

(d) ward gymunedol Tre-groes yw 2.

### Llandyfrïog — newid enw cymuned ac enw ward gymunedol

**31.** Enw cymuned Llandyfrïog fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Llandyfrïog yn Gymraeg ac erys yr enw Llandyfriog yn Saesneg.

**32.** Enw ward gymunedol Llandyfrïog yng nghymuned Llandyfrïog fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Llandyfrïog yn Gymraeg ac erys yr enw Llandyfriog yn Saesneg.

### Llandyfrïog — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**33.** Yng nghymuned Llandyfrïog, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol Llandyfrïog yw 4;

(b) ward gymunedol Orllwyn Teifi yw 4.

### Ceinewydd a Llanllwchaearn — newidiadau i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol

**34.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Llanllwchaearn a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 16—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Ceinewydd;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ceinewydd a Llanllwchaearn.

**35.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Llanllwchaearn a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 17—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llannarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llannarth;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llannarth.

**36.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Llanllwchaearn a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 17—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llannarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llannarth;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llannarth.

### Ceinewydd a Llanllwchaearn — diddymu cymunedau Ceinewydd a Llanllwchaearn, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**37.** Mae cymuned Ceinewydd fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**38.** Mae cyngor cymuned presennol Ceinewydd wedi ei ddiddymu.

**39.** Mae cymuned Llanllwchaearn fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**40.** Mae cyngor cymuned presennol Llanllwchaearn wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Ceinewydd

**41.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Ceinewydd yn Gymraeg a New Quay yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 18;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Ceinewydd a Llanllwchaearn.

### Creu ward gymunedol newydd Ceinewydd

**42.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ceinewydd o’r enw Ceinewydd yn Gymraeg a New Quay yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 1 ar Fap 18;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ceinewydd a Llanllwchaearn.

### Creu ward gymunedol newydd Llanllwchaearn

**43.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ceinewydd o’r enw Llanllwchaearn yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 2 ar Fap 18;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ceinewydd a Llanllwchaearn.

### Ceinewydd — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**44.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Ceinewydd wedi ei sefydlu.

**45.** Yng nghymuned newydd Ceinewydd, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Ceinewydd yw 6;

(b) ward gymunedol newydd Llanllwchaearn yw 5.

### Ceinewydd a Llanllwchaearn — trefniadau ward etholiadol

**46.** Mae ward etholiadol Ceinewydd a Llanllwchaearn yn cynnwys ardal cymuned newydd Ceinewydd.

**47.** Yn ward gymunedol Ceinewydd a Llanllwchaearn, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 1.

### Tregaron — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**48.** Mae’r rhan o gymuned bresennol Llanddewi Brefi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 19—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Tregaron;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Tregaron ac Ystrad-fflur.

**49.** Mae’r rhan o gymuned Tregaron a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 20—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llanddewi Brefi;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangeitho.

**50.** Mae’r rhan o gymuned Tregaron a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 21—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Lledrod;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Blaenpennal;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Lledrod.

### Tregaron — trefniadau etholiadol cymunedol

**51.** Yng nghymuned Tregaron, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Aber-porth — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**52.** Mae'r rhan o ward gymunedol Beulah o gymuned Beulah a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 22—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Aber-porth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aber-porth a'r Ferwig.

**53.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Penbryn a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 23—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Aber-porth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aber-porth a'r Ferwig.

**54.** Mae'r rhan o gymuned Aber-porth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 24—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Penbryn;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penbryn.

### Aber-porth — newid enw cymuned

**55.** Enw cymuned Aber-porth fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Aber-porth yn Gymraeg ac erys yr enw Aberporth yn Saesneg.

### Aber-porth — trefniadau etholiadol cymunedol

**56.** Yng nghymuned Aber-porth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 10.

### Beulah — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol, a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**57.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Brongwyn o gymuned Beulah a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 25—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Beulah o gymuned Beulah;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Beulah a Llangoedmor.

**58.** Mae'r rhan o ward gymunedol Beulah o gymuned Beulah a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 26—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol bresennol Betws Ifan o gymuned Beulah;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Beulah a Llangoedmor.

**59.** Mae'r rhan o ward gymunedol Beulah o gymuned Beulah a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 27—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Llandygwydd o gymuned Beulah;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Beulah a Llangoedmor.

**60.** Mae'r rhan o gymuned Llangoedmor a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 28—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Beulah;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Beulah;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Beulah a Llangoedmor.

**61.** Mae'r rhan o ward gymunedol Beulah o gymuned Beulah a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 29—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llangoedmor;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Beulah a Llangoedmor.

**62.** Mae'r rhan o ward gymunedol Betws Ifan o gymuned Beulah a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 30—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Penbryn;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penbryn.

### Beulah — cyfuno wardiau cymunedol

**63.** Mae wardiau cymunedol Betws Ifan a Brongwyn o gymuned Beulah, fel y'u newidir gan y Gorchymyn hwn, wedi eu cyfuno i ffurfio ward gymunedol newydd a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 31 —

(a) o'r enw Betws Ifan a Brongwyn yn Gymraeg a Betws Ifan and Brongwyn yn Saesneg;

(b) sy'n ffurfio rhan o ward etholiadol Beulah a Llangoedmor.

### Beulah — trefniadau wardiau etholiadol cymunedol

**64.** Yng nghymuned Beulah, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol Betws Ifan a Brongwyn yw 4;

(b) ward gymunedol Beulah yw 3;

(c) ward gymunedol Llandygwydd yw 4.

### Blaenrheidol a Phontarfynach — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol

**65.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Blaenrheidol a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 32—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Pontarfynach;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Melindwr.

**66.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Ysbyty Ystwyth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 33—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Pontarfynach;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Melindwr.

**67.** Mae'r rhan o gymuned Melindwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 34—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Blaenrheidol;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Melindwr.

**68.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Pontarfynach a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 35—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Melindwr;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Melindwr.

### Blaenrheidol a Phontarfynach — diddymu cymunedau Blaenrheidol a Phontarfynach, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**69.** Mae cymuned Blaenrheidol fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**70.** Mae cyngor cymuned presennol Blaenrheidol wedi ei ddiddymu.

**71.** Mae cymuned Pontarfynach fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**72.** Mae cyngor cymuned presennol Pontarfynach wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Blaenrheidol a Phontarfynach

**73.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Blaenrheidol a Phontarfynach yn Gymraeg a Blaenrheidol and Pontarfynach yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 36;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Melindwr.

### Creu ward gymunedol newydd Blaenrheidol

**74.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Blaenrheidol a Phontarfynach o'r enw Blaenrheidol yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 36;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Melindwr.

### Creu ward gymunedol newydd Pontarfynach

**75.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Blaenrheidol a Phontarfynach o'r enw Pontarfynach yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 36;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Melindwr.

### Blaenrheidol a Phontarfynach — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

**76.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Blaenrheidol a Phontarfynach wedi ei sefydlu.

**77.** Yng nghymuned newydd Blaenrheidol a Phontarfynach, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Blaenrheidol yw 4;

(b) ward gymunedol Pontarfynach yw 4.

### Blaenrheidol a Phontarfynach — trefniadau ward etholiadol

**78.** Mae ward etholiadol Melindwr yn cynnwys ardal cymuned newydd Blaenrheidol a Phontarfynach, a chymuned Melindwr.

**79.** Yn ward etholiadol Melindwr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Ceulan a Maesmawr — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**80.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Llangynfelyn a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 37—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Ceulan a Maesmawr;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ceulan a Maesmawr.

**81.** Mae'r rhan o gymuned Trefeurig a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 38—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Ceulan a Maesmawr;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ceulan a Maesmawr.

**82.** Mae'r rhan o gymuned Ceulan a Maesmawr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 39—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Tirymynach;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Tirymynach;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Tirymynach.

### Ceulan a Maesmawr — newid enw cymuned

**83.** Enw cymuned Ceulan a Maesmawr fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Ceulan a Maesmawr yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Ceulan a Maesmawr — trefniadau etholiadol cymunedol

**84.** Yng nghymuned Ceulan a Maesmawr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 7.

### Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed — diddymu cymunedau Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**85.** Mae cymuned Llangynfelyn fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**86.** Mae cyngor cymuned presennol Llangynfelyn wedi ei ddiddymu.

**87.** Mae cymuned bresennol Ysgubor-y-coed wedi ei diddymu.

**88.** Mae cyngor cymuned presennol Ysgubor-y-coed wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed

**89.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed yn Gymraeg a Llangynfelyn and Ysgubor-y-coed yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 40;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ceulan a Maesmawr.

### Creu ward gymunedol newydd Llangynfelyn

**90.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed o'r enw Llangynfelyn yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 40;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ceulan a Maesmawr.

### Creu ward gymunedol newydd Ysgubor-y-coed

**91.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed o'r enw Ysgubor-y-coed yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 40;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ceulan a Maesmawr.

**Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol**

**92.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed wedi ei sefydlu.

**93.** Yng nghymuned newydd Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Llangynfelyn yw 5;

(b) ward gymunedol newydd Ysgubor-y-coed yw 3.

**Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed — trefniadau ward etholiadol**

**94.** Mae ward etholiadol Ceulan a Maesmawr yn cynnwys ardaloedd cymuned Ceulan a Maesmawr, a chymuned newydd Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed.

**95.** Yn ward etholiadol Ceulan a Maesmawr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

**Ciliau Aeron a Nantcwnlle — newidiadau i ffiniau cymunedau**

**96.** Mae'r rhan o ward gymunedol Llanbadarn Trefeglwys o gymuned Dyffryn Arth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 41—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Ciliau Aeron;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Cilcennin;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ciliau Aeron.

**97.** Mae'r rhan o ward gymunedol Llanbadarn Trefeglwys o gymuned Dyffryn Arth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 42—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Nantcwnlle;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Nantcwnlle;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

**98.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Cilcennin o gymuned bresennol Ciliau Aeron a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 43—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Dyffryn Arth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Llanddewi Aber-arth;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberaeron ac Aber-arth.

**99.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Ciliau Aeron o gymuned bresennol Ciliau Aeron a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 44—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llanfihangel Ystrad;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Dihewyd;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfihangel Ystrad.

**100.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Cilcennin o gymuned bresennol Ciliau Aeron a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 45—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llanfihangel Ystrad;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llanfihangel Ystrad;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfihangel Ystrad.

**101.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Gartheli o gymuned bresennol Nantcwnlle a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 46—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llangybi;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llangybi;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

**102.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Nantcwnlle o gymuned bresennol Nantcwnlle a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 47—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llangeitho;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Pen-uwch;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangeitho.

### Ciliau Aeron a Nantcwnlle — diddymu cymunedau Ciliau Aeron a Nantcwnlle, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**103.** Mae cymuned Ciliau Aeron fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**104.** Mae cyngor cymuned presennol Ciliau Aeron wedi ei ddiddymu.

**105.** Mae cymuned Nantcwnlle fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**106.** Mae cyngor cymuned presennol Nantcwnlle wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle

**107.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Ciliau Aeron a Nantcwnlle yn Gymraeg a Ciliau Aeron and Nantcwnlle yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 48;

(b) yn ffurfio rhan o wardiau etholiadol Ciliau Aeron, a Llangybi.

### Creu ward gymunedol newydd Cilcennin

**108.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle o'r enw Cilcennin yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 48;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ciliau Aeron.

### Creu ward gymunedol newydd Ciliau Aeron

**109.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle o'r enw Ciliau Aeron yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 48;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ciliau Aeron.

### Creu ward gymunedol newydd Nantcwnlle

**110.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle o'r enw Nantcwnlle yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 48;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

### Ciliau Aeron a Nantcwnlle — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**111.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle wedi ei sefydlu.

**112.** Yng nghymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Cilcennin yw 3;

(b) ward gymunedol newydd Ciliau Aeron yw 4;

(c) ward gymunedol newydd Nantcwnlle yw 6.

### Ciliau Aeron a Nantcwnlle — trefniadau wardiau etholiadol

**113.** Mae ward etholiadol Ciliau Aeron yn cynnwys wardiau cymunedol newydd Cilcennin a Chiliau Aeron o gymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle, a ward gymunedol newydd Henfynyw o gymuned newydd Henfynyw a Llannarth.

**114.** Yn ward etholiadol Ciliau Aeron, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

**115.** Mae ward etholiadol Llangybi yn cynnwys cymuned newydd Llangybi a ward gymunedol newydd Nantcwnlle o gymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle.

**116.** Yn ward etholiadol Llangybi, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Dyffryn Arth — newid enw ward gymunedol

**117.** Enw ward gymunedol Llanddewi Aber-arth fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Llanddewi Aber-arth yn Gymraeg a Llanddewi Aberarth yn Saesneg.

### Dyffryn Arth — trefniadau etholiadol wardiau cymunedol

**118.** Yng nghymuned Dyffryn Arth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol Llanbadarn Trefeglwys yw 4;

(b) ward gymunedol Llanddewi Aber-arth yw 3.

### Faenor — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol, a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**119.** Mae'r rhan o ward gymunedol Faenor o gymuned Faenor a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 49—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Waunfawr o gymuned Faenor;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Faenor.

**120.** Mae'r rhan o ward gymunedol Waunfawr o gymuned Faenor a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 50—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward gymunedol Faenor o gymuned Faenor;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Faenor.

**121.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Llangorwen o gymuned bresennol Tirymynach a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 51—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Faenor;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Faenor;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Faenor.

**122.** Mae'r rhan o ward gymunedol Faenor o gymuned Faenor a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 52—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanbadarn Fawr;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Padarn;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbadarn Fawr.

### Faenor — trefniadau etholiadol cymunedol

**123.** Yng nghymuned Faenor, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol Faenor yw 3;

(b) ward gymunedol Waunfawr yw 5.

### Llanbadarn Fawr — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**124.** Mae'r rhan o ward gymunedol Padarn o gymuned Llanbadarn Fawr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 53—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llanfarian;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llanbadarn y Creuddyn;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfarian.

### Llanbadarn Fawr — trefniadau etholiadol cymunedol

**125.** Yng nghymuned Llanbadarn Fawr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol Padarn yw 5;

(b) ward gymunedol Sulien yw 6.

### Henfynyw a Llannarth — diddymu cymunedau Henfynyw a Llannarth, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**126.** Mae cymuned Henfynyw fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**127.** Mae cyngor cymuned presennol Henfynyw wedi ei ddiddymu.

**128.** Mae cymuned bresennol Llannarth wedi ei diddymu.

**129.** Mae cyngor cymuned presennol Llannarth wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Henfynyw a Llannarth

**130.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Henfynyw a Llannarth yn Gymraeg a Henfynyw and Llannarth yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 54;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Llannarth a rhan o ward etholiadol Ciliau Aeron.

### Creu ward gymunedol newydd Henfynyw

**131.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Henfynyw a Llannarth o'r enw Henfynyw yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 54;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ciliau Aeron.

### Creu ward gymunedol newydd Llannarth

**132.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Henfynyw a Llannarth o'r enw Llannarth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 54;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llannarth.

### Henfynyw a Llannarth — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**133.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Henfynyw a Llannarth wedi ei sefydlu.

**134.** Yng nghymuned newydd Henfynyw a Llannarth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Henfynyw yw 7;

(b) ward gymunedol newydd Llannarth yw 9.

### Henfynyw a Llannarth — trefniadau ward etholiadol

**135.** Mae ward etholiadol Llannarth yn cynnwys ward gymunedol newydd Llannarth o gymuned newydd Henfynyw a Llannarth.

**136.** Yn ward etholiadol Llannarth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Llangeitho — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol

**137.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Gwynfil o gymuned bresennol Llangeitho a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 55—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llanddewi Brefi;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangeitho.

**138.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Pen-uwch o gymuned bresennol Llangeitho a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 56—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Lledrod;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Blaenpennal;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Lledrod.

**139.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Gwynfil o gymuned bresennol Llangeitho a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 57—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llangybi;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llangybi;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

### Llanddewi Brefi a Llangeitho — diddymu cymunedau Llanddewi Brefi a Llangeitho, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**140.** Mae cymuned Llanddewi Brefi fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**141.** Mae cyngor cymuned presennol Llanddewi Brefi wedi ei ddiddymu.

**142.** Mae cymuned Llangeitho fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**143.** Mae cyngor cymuned presennol Llangeitho wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llangeitho

**144.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o’r enw Llangeitho yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 58;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Llangeitho.

### Creu ward gymunedol newydd Llanddewi Brefi

**145.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llangeitho o’r enw Llanddewi Brefi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 1 ar Fap 58;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangeitho.

### Creu ward gymunedol newydd Llangeitho

**146.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llangeitho o’r enw Llangeitho yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 2 ar Fap 58;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangeitho.

### Llangeitho — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**147.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Llangeitho wedi ei sefydlu.

**148.** Yng nghymuned newydd Llangeitho, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Llanddewi Brefi yw 6;

(b) ward gymunedol newydd Llangeitho yw 6.

### Llangeitho — trefniadau ward etholiadol

**149.** Mae ward etholiadol Llangeitho yn cynnwys ardal cymuned newydd Llangeitho.

**150.** Yn ward etholiadol Llangeitho, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 1.

### Llangybi — newidiadau i ffiniau cymunedau

**151.** Mae’r rhan o ward gymunedol bresennol Llanfihangel Ystrad o gymuned bresennol Llanfihangel Ystrad a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 59—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llangybi;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Silian;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

**152.** Mae’r rhan o ward gymunedol bresennol Llanfihangel Ystrad o gymuned bresennol Llanfihangel Ystrad a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 60—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llangybi;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llangybi;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

**153.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Llangybi o gymuned bresennol Llangybi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 61—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llanfihangel Ystrad;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llanfihangel Ystrad;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfihangel Ystrad.

### Llanfair Clydogau a Llangybi — diddymu cymunedau Llanfair Clydogau a Llangybi, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**154.** Mae cymuned bresennol Llanfair Clydogau wedi ei diddymu.

**155.** Mae cyngor cymuned presennol Llanfair Clydogau wedi ei ddiddymu.

**156.** Mae cymuned Llangybi fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**157.** Mae cyngor cymuned presennol Llangybi wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llangybi

**158.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu o'r enw Llangybi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 62;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

### Creu ward gymunedol newydd Llanfair Clydogau

**159.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llangybi o'r enw Llanfair Clydogau yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 62;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

### Creu ward gymunedol newydd Llangybi

**160.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llangybi o'r enw Llangybi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 62;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangybi.

### Llangybi — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

**161.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Llangybi wedi ei sefydlu.

**162.** Yng nghymuned newydd Llangybi, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Llanfair Clydogau yw 4;

(b) ward gymunedol newydd Llangybi yw 4.

### Lledrod a Llangwyryfon — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol

**163.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Blaenpennal o gymuned bresennol Lledrod a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 63—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llangwyryfon;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanrhystud.

**164.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Llanilar a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 64—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llangwyryfon;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanrhystud.

**165.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Haminiog o gymuned bresennol Llanrhystud a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 65—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llangwyryfon;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanrhystud.

### Lledrod a Llangwyryfon — diddymu cymunedau Lledrod a Llangwyryfon, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**166.** Mae cymuned Lledrod fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**167.** Mae cyngor cymuned presennol Lledrod wedi ei ddiddymu.

**168.** Mae cymuned Llangwyryfon fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**169.** Mae cyngor cymuned presennol Llangwyryfon wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Lledrod

**170.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Lledrod yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 66;

(b) yn ffurfio rhan o wardiau etholiadol Lledrod, a Llanrhystud.

### Creu ward gymunedol newydd Lledrod

**171.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Lledrod o'r enw Lledrod yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 66;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Lledrod.

### Creu ward gymunedol newydd Llangwyryfon

**172.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Lledrod o'r enw Llangwyryfon yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 66;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanrhystud.

### Lledrod — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

**173.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Lledrod wedi ei sefydlu.

**174.** Yng nghymuned newydd Lledrod, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Lledrod yw 6;

(b) ward gymunedol newydd Llangwyryfon yw 4.

### Lledrod — trefniadau wardiau etholiadol

**175.** Mae ward etholiadol Lledrod yn cynnwys ward gymunedol newydd Lledrod o gymuned newydd Lledrod, a wardiau cymunedol newydd Ystrad Meurig ac Ysbyty Ystwyth o gymuned newydd Ystrad Fflur.

**176.** Yn ward etholiadol Lledrod, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

**177.** Mae ward etholiadol Llanrhystud yn cynnwys ward gymunedol newydd Llangwyryfon o gymuned newydd Lledrod, a ward gymunedol newydd Llanrhystud o gymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud.

**178.** Yn ward etholiadol Llanrhystud, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Llandysiliogogo a Throed-yr-aur — diddymu cymunedau Llandysiliogogo a Throed-yr-aur, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**179.** Mae cymuned bresennol Llandysiliogogo wedi ei diddymu.

**180.** Mae cyngor cymuned presennol Llandysiliogogo wedi ei ddiddymu.

**181.** Mae cymuned bresennol Troed-yr-aur wedi ei diddymu.

**182.** Mae cyngor cymuned presennol Troed-yr-aur wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur

**183.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Llandysiliogogo a Throed-yr-aur yn Gymraeg a Llandysiliogogo and Troed-yr-aur yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 67;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandysilio a Llangrannog a rhan o ward etholiadol Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur.

### Creu ward gymunedol newydd Llandysiliogogo

**184.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur o'r enw Llandysiliogogo yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 67;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandysilio a Llangrannog.

### Creu ward gymunedol newydd Llangynllo

**185.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur o'r enw Llangynllo yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 67;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur.

### Creu ward gymunedol newydd Troed-yr-aur

**186.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur o'r enw Troed-yr-aur yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 67;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur.

### Llandysiliogogo a Throed-yr-aur — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

**187.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur wedi ei sefydlu.

**188.** Yng nghymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Llandysiliogogo yw 7;

(b) ward gymunedol newydd Llangynllo yw 3;

(c) ward gymunedol newydd Troed-yr-aur yw 5.

### Llandysiliogogo a Throed-yr-aur — trefniadau wardiau etholiadol

**189.** Mae ward etholiadol Llandysilio a Llangrannog yn cynnwys ward gymunedol newydd Llandysiliogogo o gymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur, a ward gymunedol newydd Llangrannog o gymuned newydd Llangrannog a Phenbryn.

**190.** Yn ward etholiadol Llandysilio a Llangrannog, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

**191.** Mae ward etholiadol Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur yn cynnwys wardiau cymunedol Pontsiân a Thre-groes o gymuned Llandysul, a wardiau cymunedol newydd Llangynllo a Throed-yr-aur o gymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur.

**192.** Yn ward etholiadol Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Llanrhystud — newidiadau i ffiniau cymunedau

**193.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Haminiog o gymuned bresennol Llanrhystud a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 68—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llansanffraid;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llansanffraid.

### Llanfarian a Llanrhystud — diddymu cymunedau Llanfarian a Llanrhystud, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**194.** Mae cymuned Llanfarian fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**195.** Mae cyngor cymuned presennol Llanfarian wedi ei ddiddymu.

**196.** Mae cymuned Llanrhystud fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**197.** Mae cyngor cymuned presennol Llanrhystud wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud

**198.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Llanfarian a Llanrhystud yn Gymraeg a Llanfarian and Llanrhystud yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 69;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Llanfarian a rhan o ward etholiadol Llanrhystud.

### Creu ward gymunedol newydd Llanbadarn y Creuddyn Isaf

**199.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud o'r enw Llanbadarn y Creuddyn Isaf yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 69;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfarian.

### Creu ward gymunedol newydd Llanychaearn

**200.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud o'r enw Llanychaearn yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 69;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfarian.

### Creu ward gymunedol newydd Llanrhystud

**201.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud o'r enw Llanrhystud yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 69;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanrhystud.

### Llanfarian a Llanrhystud — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

**202.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud wedi ei sefydlu.

**203.** Yng nghymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Llanbadarn y Creuddyn Isaf yw 6;

(b) ward gymunedol newydd Llanychaearn yw 3;

(c) ward gymunedol newydd Llanrhystud yw 6.

### Llanfarian a Llanrhystud — trefniadau ward etholiadol

**204.** Mae ward etholiadol Llanfarian yn cynnwys wardiau cymunedol newydd Llanbadarn y Creuddyn Isaf a Llanychaearn o gymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud.

**205.** Yn ward etholiadol Llanfarian, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Llanfihangel Ystrad a Llanwnnen — newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol

**206.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Llanwnnen a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 70—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Llanfihangel Ystrad;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Dihewyd;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfihangel Ystrad.

### Llanfihangel Ystrad a Llanwnnen — diddymu cymunedau Llanfihangel Ystrad a Llanwnnen, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**207.** Mae cymuned Llanfihangel Ystrad fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**208.** Mae cyngor cymuned presennol Llanfihangel Ystrad wedi ei ddiddymu.

**209.** Mae cymuned bresennol Llanwnnen wedi ei diddymu.

**210.** Mae cyngor cymuned presennol Llanwnnen wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llanfihangel Ystrad

**211.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Llanfihangel Ystrad yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 71;

(b) yn ffurfio rhan o wardiau etholiadol Llanfihangel Ystrad a Llanwenog.

### Creu ward gymunedol newydd Dihewyd

**212.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llanfihangel Ystrad o'r enw Dihewyd yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 71;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfihangel Ystrad.

### Creu ward gymunedol newydd Llanfihangel Ystrad

**213.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llanfihangel Ystrad o'r enw Llanfihangel Ystrad yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 71;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanfihangel Ystrad.

### Creu ward gymunedol newydd Llanwnnen

**214.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llanfihangel Ystrad o'r enw Llanwnnen yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 71;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanwenog.

### Llanfihangel Ystrad — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

**215.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Llanfihangel Ystrad wedi ei sefydlu.

**216.** Yng nghymuned newydd Llanfihangel Ystrad, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Dihewyd yw 3;

(b) ward gymunedol newydd Llanfihangel Ystrad yw 6;

(c) ward gymunedol newydd Llanwnnen yw 3.

### Llanfihangel Ystrad — trefniadau wardiau etholiadol

**217.** Mae ward etholiadol Llanfihangel Ystrad yn cynnwys wardiau cymunedol newydd Dihewyd a Llanfihangel Ystrad o gymuned newydd Llanfihangel Ystrad.

**218.** Yn ward etholiadol Llanfihangel Ystrad, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

**219.** Mae ward etholiadol Llanwenog yn cynnwys ward gymunedol newydd Llanwnnen o gymuned newydd Llanfihangel Ystrad, a chymuned Llanwenog.

**220.** Yn ward etholiadol Llanwenog, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Llangoedmor — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**221.** Mae'r rhan o gymuned Llangoedmor a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 72—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Y Ferwig;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aber-porth a'r Ferwig.

### Llangoedmor — trefniadau etholiadol cymunedol

**222.** Yng nghymuned Llangoedmor, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 7.

### Llangrannog a Phenbryn — newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol

**223.** Mae'r rhan o gymuned bresennol Llangrannog a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 73—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Penbryn;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penbryn.

### Llangrannog a Phenbryn — diddymu cymunedau Llangrannog a Phenbryn, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**224.** Mae cymuned Llangrannog fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**225.** Mae cyngor cymuned presennol Llangrannog wedi ei ddiddymu.

**226.** Mae cymuned Penbryn fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**227.** Mae cyngor cymuned presennol Penbryn wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Llangrannog a Phenbryn

**228.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Llangrannog a Phenbryn yn Gymraeg a Llangrannog and Penbryn yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 74;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Penbryn a rhan o ward etholiadol Llandysilio a Llangrannog.

### Creu ward gymunedol newydd Llangrannog

**229.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llangrannog a Phenbryn o'r enw Llangrannog yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 74;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandysilio a Llangrannog.

### Creu ward gymunedol newydd Penbryn

**230.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Llangrannog a Phenbryn o'r enw Penbryn yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 74;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Penbryn.

### Llangrannog a Phenbryn — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

**231.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Llangrannog a Phenbryn wedi ei sefydlu.

**232.** Yng nghymuned newydd Llangrannog a Phenbryn, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Llangrannog yw 5;

(b) ward gymunedol newydd Penbryn yw 8.

### Llangrannog a Phenbryn — trefniadau ward etholiadol

**233.** Mae ward etholiadol Penbryn yn cynnwys ward gymunedol newydd Penbryn o gymuned newydd Llangrannog a Phenbryn.

**234.** Yn ward etholiadol Penbryn, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Trawsgoed — newidiadau i ffiniau cymunedau

**235.** Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Gwnnws Isaf o gymuned bresennol Ystrad Meurig a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 75—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Trawsgoed;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Llanafan;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ystwyth.

### Llanilar a Thrawsgoed — diddymu cymunedau Llanilar a Thrawsgoed, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**236.** Mae cymuned Llanilar fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**237.** Mae cyngor cymuned presennol Llanilar wedi ei ddiddymu.

**238.** Mae cymuned bresennol Trawsgoed fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**239.** Mae cyngor cymuned presennol Trawsgoed wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Ystwyth

**240.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Ystwyth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 76;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Ystwyth.

### Creu ward gymunedol newydd Llanilar

**241.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ystwyth o'r enw Llanilar yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 76;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ystwyth.

### Creu ward gymunedol newydd Trawsgoed

**242.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ystwyth o'r enw Trawsgoed yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 76;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ystwyth.

### Ystwyth — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**243.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Ystwyth wedi ei sefydlu.

**244.** Yng nghymuned newydd Ystwyth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Llanilar yw 7;

(b) ward gymunedol newydd Trawsgoed yw 6.

### Ystwyth — trefniadau ward etholiadol

**245.** Mae ward etholiadol Ystwyth yn cynnwys ardal cymuned newydd Ystwyth.

**246.** Yn ward etholiadol Ystwyth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Llansanffraid — newid enw cymuned

**247.** Enw cymuned Llansanffraid fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Llansanffraid yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Llansanffraid — trefniadau etholiadol cymunedol

**248.** Yng nghymuned Llansanffraid, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Melindwr — diddymu wardiau cymunedol

**249.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn o gymuned Melindwr wedi eu diddymu—

(a) Goginan;

(b) Llanbadarn y Creuddyn Uchaf;

(c) Penllwyn.

### Melindwr — trefniadau etholiadol cymunedol

**250.** Yng nghymuned Melindwr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 7.

### Tirymynach a Genau’r-glyn — newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a ffiniau cymunedau

**251.** Mae’r rhan o gymuned bresennol Genau'r-glyn a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 77—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Tirymynach;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol bresennol Tirymynach;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Tirymynach.

**252.** Mae’r rhan o gymuned Y Borth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 78—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned bresennol Genau’r-glyn;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Borth.

**253.** Mae’r rhan o ward gymunedol bresennol Tirymynach o gymuned bresennol Tirymynach a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 79—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Trefeurig;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Trefeurig.

### Tirymynach a Genau’r-glyn — diddymu cymunedau Tirymynach a Genau’r-glyn, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**254.** Mae cymuned Tirymynach fel y’i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**255.** Mae cyngor cymuned presennol Tirymynach wedi ei ddiddymu.

**256.** Mae cymuned Genau’r-glyn fel y’i newidir gan y gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**257.** Mae cyngor cymuned presennol Genau’r-glyn wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Tirymynach

**258.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o’r enw Tirymynach yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 80;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Tirymynach a rhan o ward etholiadol Y Borth.

### Creu ward gymunedol newydd Tirymynach

**259.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Tirymynach o’r enw Tirymynach yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 1 ar Fap 80;

(b) yn ffurfio ward etholiadol Tirymynach.

### Creu ward gymunedol newydd Genau’r-glyn

**260.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Tirymynach o’r enw Genau’r-glyn yn Gymraeg a Geneu’r Glyn yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 2 ar Fap 80;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Borth.

### Tirymynach — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

**261.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Tirymynach wedi ei sefydlu.

**262.** Yng nghymuned newydd Tirymynach, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Genau'r-glyn yw 4;

(b) ward gymunedol newydd Tirymynach yw 10.

### Tirymynach — trefniadau wardiau etholiadol

**263.** Mae ward etholiadol Tirymynach yn cynnwys ward gymunedol newydd Tirymynach o gymuned newydd Tirymynach.

**264.** Yn ward etholiadol Tirymynach, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

**265.** Mae ward etholiadol Y Borth yn cynnwys ward gymunedol newydd Genau'r-glyn o gymuned newydd Tirymynach a chymuned Borth.

**266.** Yn ward etholiadol Y Borth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 1.

### Y Borth — newid enw cymuned

**267.** Enw cymuned Y Borth fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Y Borth yn Gymraeg ac erys yr enw Borth yn Saesneg.

### Y Borth — trefniadau etholiadol cymunedol

**268.** Yng nghymuned Y Borth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Trefeurig — trefniadau etholiadol cymunedol

**269.** Yng nghymuned Trefeurig, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Y Ferwig — trefniadau etholiadol cymunedol

**270.** Yng nghymuned Y Ferwig, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Ystrad Fflur, Ysbyty Ystwyth ac Ystrad Meurig — diddymu cymunedau Ystrad Fflur, Ysbyty Ystwyth ac Ystrad Meurig, a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned

**271.** Mae cymuned bresennol Ystrad Fflur wedi ei diddymu.

**272.** Mae cyngor cymuned presennol Ystrad Fflur wedi ei ddiddymu.

**273.** Mae cymuned Ysbyty Ystwyth fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**274.** Mae cyngor cymuned presennol Ysbyty Ystwyth wedi ei ddiddymu.

**275.** Mae cymuned Ystrad Meurig fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

**276.** Mae cyngor cymuned presennol Ystrad Meurig wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Ystrad Fflur

**277.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Ystrad Fflur yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 81;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Tregaron ac Ystrad-fflur a rhan o ward etholiadol Lledrod.

### Creu ward gymunedol newydd Ysbyty Ystwyth

**278.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ystrad Fflur o’r enw Ysbyty Ystwyth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 1 ar Fap 81;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Lledrod.

### Creu ward gymunedol newydd Ystrad Fflur

**279.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ystrad Fflur o’r enw Ystrad Fflur yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 2 ar Fap 81;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Tregaron ac Ystrad-fflur.

### Creu ward gymunedol newydd Ystrad Meurig

**280.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Ystrad Fflur o’r enw Ystrad Meurig yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 3 ar Fap 81;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Lledrod.

### Ystrad Fflur — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol wardiau cymunedol

**281.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Ystrad Fflur wedi ei sefydlu.

**282.** Yng nghymuned newydd Ystrad Fflur, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol dros—

(a) ward gymunedol newydd Ysbyty Ystwyth yw 4;

(b) ward gymunedol newydd Ystrad Fflur yw 6;

(c) ward gymunedol newydd Ystrad Meurig yw 4.

### Ystrad Fflur — trefniadau ward etholiadol

**283.** Mae ward etholiadol Tregaron ac Ystrad-fflur yn cynnwys ward gymunedol newydd Ystrad Fflur o gymuned newydd Ystrad Fflur a chymuned Tregaron.

**284.** Yn ward etholiadol Tregaron ac Ystrad-fflur, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 1.

### Treuliau cychwynnol etc. cynghorau cymuned newydd

**285.**—(1) Yn yr erthygl hon—

ystyr “yr awdurdod bilio arfaethedig” (“*the prospective billing authority*”) yw Cyngor Sir Ceredigion;

ystyr “Deddf 1992” (“*the 1992 Act*”) yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**9**);

(**9**) 1992 p. 14. Diwygiwyd adrannau 32 a 35, o ran Cymru, gan baragraffau 4 a 6 yn y drefn honno o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 32 ymhellach gan baragraff 10 o Atodlen 7 i Ddeddf

ystyr "y flwyddyn ariannol berthnasol" ("*the relevant financial year*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2027.

(2) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 32 o Ddeddf 1992 (cyfrifo gofynion cyllideb gan awdurdodau bilio) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai—

(a) wrth wneud cyfrifiad o dan adran 32(2)(a) o Ddeddf 1992—

(i) y swm a hysbysir o dan baragraff (6) o'r erthygl hon yn eitem a grybwyllir yn adran 35(1) o Ddeddf 1992 (eitemau arbennig) sy'n ymwneud â'r gymuned newydd, a

(ii) ardal yr awdurdod bilio arfaethedig yn cynnwys y gymuned newydd;

(b) is-adran (6) wedi ei hepgor.

(3) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 41 o Ddeddf 1992 (dyroddi praeseptau gan awdurdodau praeseptio lleol) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai'n ofynnol i'r awdurdod bilio arfaethedig, wrth wneud cyfrifiadau o dan adran 32 o Ddeddf 1992 (yn wreiddiol neu drwy amnewid) yn ei amcangyfrif o dan adran 32(2)(a), ystyried swm sy'n hafal i'r hyn a hysbysir iddo o dan baragraff (6) o'r erthygl hon.

(4) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adrannau 52X(1) (cyfrifiadau i fod yn net o braeseptau) a 52Y(2) (gwybodaeth at ddibenion Pennod 4A) o Ddeddf 1992 yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai cyfanswm cyfanredol y praeseptau a ragwelir gan yr awdurdod bilio arfaethedig o dan reoliadau a wnaed o dan adran 41 o Ddeddf 1992 yn cynnwys y symiau a hysbysir i'r cynghorau cymuned newydd o dan baragraff (6) o'r erthygl hon.

(5) Mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 50 o Ddeddf 1992 (cyfrifo gofyniad cyllideb gan awdurdodau praeseptio lleol) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig fel pe bai'n ofynnol i bob un o'r cynghorau cymuned newydd sicrhau nad yw'r swm a gyfrifwyd fel ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn honno yn fwy na'r swm a hysbysir i'r cyngor cymuned newydd hwnnw o dan baragraff (6) o'r erthygl hon.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod am y swm priodol sydd i'w hysbysu i bob un o'r cynghorau cymuned newydd o dan y paragraff hwn yn ysgrifenedig i'r awdurdod bilio arfaethedig ac i bob un o'r cynghorau cymuned newydd.

(7) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995(**10**) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig fel pe bai—

(a) rheoliad 5 (gwybodaeth am amserlenni talu) wedi ei hepgor;

(b) ym mharagraff 8 o'r Atodlen (rheolau i benderfynu'r cyfnodau amser ar gyfer rhandaliadau)—

(i) yn is-baragraffau (1), (2) a (3), y geiriau ar ôl y cyfeiriad cyntaf at "that financial year" wedi eu hepgor;

(ii) yn is-baragraff (1)(a), y cyfeiriad at "April" yn gyfeiriad at "May".

Lleoliaeth 2011 (p. 20) ac O.S. 2013/216 (Cy. 28), ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn. Diwygiwyd adran 35 gan baragraff 13 o Atodlen 7 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 a pharagraff 6 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn. Diwygiwyd adran 41 gan baragraff 18 o Atodlen 7 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Diwygiwyd adran 50 gan Ran 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26). Mewnosodwyd adrannau 52X a 52Y gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (p. 27).

(**10**) O.S. 1995/2562, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

### Cynghorau cymuned newydd

**286.** Rhaid i swyddog priodol Cyngor Sir Ceredigion gynnull cyfarfod cyntaf pob un or cynghorau cymuned newydd a sefydlir gan erthyglau 44, 76, 92, 111, 133, 147, 161, 173, 187, 202, 215, 231, 243, 261 a 281.

### Cynghorau cymuned newydd — olynwyr gweddilliol

**287.** At ddibenion unrhyw ddarpariaeth o Reoliadau 1976 sy’n cyfeirio at olynydd gweddilliol awdurdod a ddiddymwyd—

(a) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Ceinewydd a Llanllwchaearn, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Ceinewydd wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(b) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Blaenrheidol a Phontarfynach, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Blaenrheidol a Phontarfynach wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(c) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(d) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Ciliau Aeron a Nantcwnlle, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Ciliau Aeron a Nantcwnlle wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(e) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Henfynyw a Llannarth, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Henfynyw a Llannarth wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(f) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Llanddewi Brefi a Llangeitho, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Llangeitho wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(g) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Llanfair Clydogau a Llangybi, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Llangybi wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(h) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Lledrod a Llangwyryfon, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Lledrod wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(i) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Llandysiliogogo a Throed-yr-aur, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Llandysiliogogo a Throed-yr-aur wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(j) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Llanfarian a Llanrhystud, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Llanfarian a Llanrhystud wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(k) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Llanfihangel Ystrad a Llanwnnen, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Llanfihangel Ystrad wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(l) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Llangrannog a Phenbryn, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Llangrannog a Phenbryn wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(m) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Llanilar a Thrawsgoed, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Ystwyth wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(n) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Tirymynach a Genau'r-glyn, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Tirymynach wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(o) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Ystrad Fflur, Ysbyty Ystwyth ac Ystrad Meurig, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Ystrad Fflur wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol.

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2026

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Hydref 2024 ar ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol cymunedol yn Sir Ceredigion. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newidiadau i ffiniau presennol cymunedau yn ardal Sir Ceredigion a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn gydag addasiad. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud darpariaeth atodol, fel y'i hystyrir yn angenrheidiol neu'n hwylus gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â rhai enwau cymunedau.

Effaith y Gorchymyn hwn yw gwneud newidiadau i nifer o gymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diddymu nifer o gymunedau a wardiau cymunedol presennol, yn diddymu eu cynghorau cymuned ac yn creu cymunedau newydd, wardiau cymunedol newydd a chynghorau cymuned newydd. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud darpariaeth weinyddol ar gyfer gweithredu'r cynghorau cymuned newydd hynny a gosod praeseptau sy'n ymwneud â hwy.

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976, y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol a darpariaethau atodol ynghylch effaith gorchmynion megis y gorchymyn hwn a gweithredu'r gorchmynion hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "81" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Etholiadau), a chyda Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Sir Ceredigion yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.